Adroddiad i'r	Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio
Dyddiad y Cyfarfod	27 Gorffennaf 2022
Aelod / Swyddog Arweiniol	Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
Awdur yr adroddiad	Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo
Teitl	Ymholiadau Archwilio 2021/22

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

I gyflwyno Llythyr Ymholiadau Archwilio ac ymateb y Cyngor i'r ymholiadau hynny.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae gan Archwilio Cymru, fel archwilwyr allanol a benodwyd gan Gyngor Sir Ddinbych, ddyletswydd i gael tystiolaeth o sut mae rheolwyr a'r sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu (sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yng Nghyngor Sir Ddinbych) yn cyflawni eu cyfrifoldebau ar gyfer atal a datgelu twyll. Mae'r llythyr yn nodi'r gofynion a manylion yr ymatebion wedi'u cynnwys yn **Atodiad 1 a 2.** Mae'r ymatebion yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2021/22 ac felly gofynnwyd i Gadeirydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio adolygu ymateb arfaethedig y Cyngor.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn nodi bod yr ymatebion yn Atodiad 2 i'r adroddiad hwn wedi'u cymeradwyo gan Gadeirydd blaenorol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 4 Mai 2022 a'u cyflwyno i Archwilio Cymru ar 6 Mai 2022.

4. Manylion yr adroddiad

Mae manylion ymatebion y rheolwyr (Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Eiddo, a Bob Chowdhury, Prif Archwilydd Mewnol) a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (Cyng Barry Mellor, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio) wedi'u nodi yn Atodiad 2. Yn gryno, roedd yr ymatebion yn nodi ymagwedd y Cyngor tuag at y meysydd canlynol o lywodraethu:

- Prosesau rheoli sydd ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.
- Ymwybyddiaeth o unrhyw achosion gwirioneddol neu honedig o dwyll.
- Prosesau i gael sicrwydd y cydymffurfiwyd â'r holl gyfreithiau a rheoliadau perthnasol.
- A oes unrhyw ymgyfreithiad posibl neu hawliadau a fyddai'n effeithio ar y datganiadau ariannol.
- Prosesau i adnabod, awdurdodi, cymeradwyo, cyfrif am a datgelu trafodion partïon cysylltiedig a pherthnasoedd.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r broses archwilio allanol flynyddol yn sail i stiwardiaeth a llywodraethu ariannol y Cyngor ac felly mae'n cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Does dim costau ychwanegol yn codi o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Barn broffesiynol y Swyddog Adran 151 yw nad oes angen Asesiad o'r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Gofynnodd Swyddfa Archwilio Cymru am ymatebion gan Steve Gadd fel Pennaeth Cyllid ac Eiddo a Swyddog Adran 151 a'r Cynghorydd Barry Mellor fel Cadeirydd y Pwyllgor

Llywodraethu ac Archwilio. Ymgynghorwyd hefyd â Bob Chowdhury, y Prif Archwilydd Mewnol.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae'n bwysig fod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldeb dros atal a chanfod twyll ym mhob agwedd o'i waith. Mae'r sicrwydd y mae Archwilio Cymru yn ei geisio mewn cysylltiad â thwyll yn ffurfio gwiriad defnyddiol i sicrhau bod prosesau priodol ar waith i adnabod a lliniaru yn erbyn y risg o dwyll.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg yw y gall twyll arwain at gamgymeradwyo asedau'r Cyngr neu drin neu gamddatgan y datganiadau ariannol. Mae'r ymatebion gan reolwyr a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn helpu i ddangos fod prosesau ar waith er mwyn adnabod ac ymateb i'r risg o dwyll a bod digon o reolaethau mewnol ar waith i liniaru'r risgiau hynny.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Mae'r Safon Ryngwladol ar Archwilio (Y DU ac Iwerddon) 240 (ISA 240) yn nodi mai'r rheolwyr a'r 'rheini sydd yng ngofal llywodraethu', sef y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yng Nghyngor Sir Ddinbych, sydd yn bennaf gyfrifol am atal a chanfod twyll. Mae ISA 240 yn nodi'r gofyniad am archwiliad allanol i gael dealltwriaeth o sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau.